Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Mair Hughes
Ysgol Penglais
Waunfawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3AW

24/07/2025

Annwyl Mair Hughes

**Ymweliad interim:** Gorffennaf 2025

Diolch am eich croeso yn ystod yr ymweliad interim â'r ysgol ar 1 ac 2 Gorffennaf 2025. Roedd yn braf cael cyfle i gyfarfod â chi, eich staff a'ch disgyblion a chlywed mwy am y gwaith gwella mae'r ysgol wedi'i wneud ers yr arolygiad craidd ym mis Mai 2022.

Yn ystod yr ymweliad, cawsom gyfle i:

- siarad ag uwch arweinwyr ac arweinwyr canol am eich gwaith yn ymwneud â chryfhau diwylliant diogelu'r ysgol trwy gyfathrebu gwell, gwella'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol a gwella prosesau hunanwerthuso a gwella
- siarad â disgyblion ar draws grwpiau Blwyddyn 7, 8, 9, 10 a 12 a chlywed eu hadborth am yr ysgol
- cynnal cyfres o arsylwadau gwersi a gweithgareddau craffu ar waith ar y cyd ag uwch arweinwyr i gefnogi eich hunanwerthuso a chynllunio gwelliant
- arsylwi ystod o sesiynau addysgu a dysgu, gan gynnwys mewn Saesneg, Cymraeg, gwyddoniaeth, dylunio a thechnoleg, daearyddiaeth, addysg gorfforol, lles, adeiladu ac iechyd a gofal cymdeithasol

**Ffocws yr ymweliad**

**Argymhelliad 2 – Cryfhau diwylliant diogelu'r ysgol trwy gyfathrebu'n glir â'r holl ddisgyblion a'r rhieni ynglŷn a sut yr eir i'r afael ag achosion o ymddygiad gwael a bwlio honedig, yn ogystal â gwella'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol.**

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi canolbwyntio ar fireinio prosesau'r ysgol i gryfhau'r diwylliant diogelu. Trwy fyfyrio gonest, maent wedi nodi'r meysydd sydd angen eu gwella yn y maes hwn ac wedi gweithio ar wella cyfathrebu â disgyblion a rhieni yn benodol. Roedd yn ddiddorol clywed am y modd mae'r ysgol wedi defnyddio dysgu proffesiynol i ddatblygu dealltwriaeth staff ynglŷn ag agweddau ar les fel gwrthdaro, bwlio ac amrywiaeth a chydraddoldeb. Mae arweinwyr ar bob lefel wedi datblygu llinellau cyfathrebu cliriach trwy roi adborth amserol i rieni pan fydd digwyddiadau, gweithdai ar gyfer rhieni, yn ogystal â galwadau ffôn cadarnhaol wythnosol. Mae'r ysgol wedi canolbwyntio ar ddatblygu ei gwaith ehangach, hefyd. Mae hyn yn cynnwys staff yn gweithio'n agos gyda theuluoedd mewn ysgolion cynradd partner ac yn yr hybiau cymunedol i gefnogi a datblygu eu dealltwriaeth o faterion lles. Roedd yn ddiddorol clywed bod arweinwyr o'r farn fod hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ymgysylltiad rhieni â'r ysgol.

Mae'r ysgol wedi datblygu ei darpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol trwy ddull yn seiliedig ar ymchwil. Erbyn hyn, mae cynnig cwricwlwm cyfoes a gyflwynir trwy wersi lles ar gyfer Blynyddoedd 7 i 11, gwasanaethau a sesiynau amser tiwtor dosbarth. Mae'r ddarpariaeth hon yn parhau yn y chweched dosbarth gyda'r rhaglen gyfoethogi. Cefnogir y cyflwyno a'r cynnwys gan ddarparwyr allanol fel Brooke, PSE Association, NSPCC, a'r heddlu. Mae arweinwyr yn addasu'r cwricwlwm i ymateb i anghenion disgyblion a chanfyddiadau o adborth amserol llais y disgybl, gwerthusiadau tymhorol penaethiaid blwyddyn a defnyddio data'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion. Cefnogir y gwaith gan raglen dysgu proffesiynol i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a hyder staff i gyflwyno'r gwaith hwn. Roedd yn bleser clywed bod disgyblion y cyfarfuom â nhw yn ystod yr ymweliad yn gwerthfawrogi'r cynnig cwricwlwm lles ac yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi'n dda.

Credwn y byddai'n fuddiol i'r ysgol ystyried:

- Sut bydd yr ysgol yn datblygu ei chyfathrebu a'i hymgysylltu â rhieni ymhellach?

**Hunanwerthuso a chynllunio gwelliant**

Ar ôl yr arolygiad craidd, mae’r ysgol wedi mireinio’i phrosesau sicrhau ansawdd ymhellach i roi mwy o ymreolaeth i arweinwyr canol ganolbwyntio ar flaenoriaethau penodol yn eu meysydd cyfrifoldeb. Caiff hyn, ynghyd â lefelau uchel y cymorth a ddarperir gan uwch arweinwyr mewn cyfarfodydd rheolwyr llinell, ei werthfawrogi’n fawr gan arweinwyr canol. Esboniodd arweinwyr eu bod yn gweld hunanwerthuso a chynllunio gwelliant fel proses barhaus. Roedd yn ddiddorol clywed bod pob un o’r staff yn gallu cymryd rhan mewn wythnosau dysgu proffesiynol a gweithgareddau sicrhau ansawdd ar y cyd. Roedd yn dda clywed staff yn siarad am y gweithgareddau hyn fel cyfleoedd datblygiadol. Roedd hefyd yn bleser clywed arweinwyr ar bob lefel yn defnyddio geirfa gytun wrth drafod gwahanol agweddau ar addysgu a dysgu.

Roedd arweinwyr ar bob lefel yn gallu dweud wrthym ni am y modd y maent yn holi barn staff a disgyblion yn rheolaidd i lywio’u gwerthusiadau, a sut maent yn defnyddio data i holi cwestiynau am ansawdd y ddarpariaeth. Esboniodd arweinwyr eu barn ar gryfderau’r ysgol a’i meysydd i’w datblygu a sut maent wedi nodi blaenoriaethau tymor byr a thymor hir ar gyfer gwella sy’n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau cenedlaethol yr ysgol. Roedd yn gadarnhaol clywed eu bod yn gwerthuso cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hyn yn rheolaidd ac yn gwneud addasiadau, yn ôl yr angen. Mae arweinwyr wedi gweithio i sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth well i effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion, er bod uwch arweinwyr yn cydnabod bod anghysondeb o ran pa mor dda mae arweinwyr yn gwerthuso medrau disgyblion wrth gynnal gweithgareddau sicrhau ansawdd.

Credwn y byddai’n fuddiol i’r ysgol ystyried:

- A yw arweinwyr bob amser yn rhoi ystyriaeth ddigon da i safonau medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion wrth werthuso effeithiolrwydd darpariaeth?

Diolch eto am eich holl gymorth i gynllunio a threfnu ein hymweliad.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/ysgol-penglais-cy/

Yn gywir

**Catherine Evans**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol